# Cyngor Cymuned Mawddwy

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
☏ **01650 531 405**
**E bost: huwjones792@btinternet.com**

30ain Medi 2024

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED MAWDDWY** ***Nos Fercher y 9fed o Hydref am 7.30yh yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.***

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.
NODER BOD HELEDD PARRI O GRWP CYNEFIN GYDA NI AM 7.30yh.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

**…………………………………………………………………………………………**

AGENDA

1.Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28ain o Awst 2024 – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) Yn dilyn penderfyniad yn y cyfarfod diwethaf, **croesawu Heledd Parri o Grwp Cynefin atom i son am anghenion tai.**

b) Materion Llwybrau Priffyrdd a Chefnffyrdd.

c) Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy -derbyn y diweddaraf.

d) Cwyn am 2 garafan static – Min y Goedwig, Aberangell – derbyn y diweddaraf

e) Pwyllgor yr Hen Fynwent – derbyn y diweddaraf.

f) Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas – derbyn y diweddaraf.

g) Diffibrilator i Lanymawddwy

h) Bwrdd Gwybodaeth Bwlch yn Groes – nodi'r diweddaraf.

5**. Materion Cynllunio**

Nodi gohebiaeth pellach yn dilyn ein hymateb i gais NP5/74/516 – sef trosi garej domestig yn anecs a gosodiad gwyliau tymor byr yn Ger y Llan, Llanymawddwy.

6. **Materion Cyllid.**

a) Nodi balansau y cyfrifon.

b) Anfonebau I'w talu;

   Anfoneb Glyn Rees a'i Fab – ail-agor bedd i gladdu llwch Pamela Honore Andrews a John Haslam

   Anfoneb HG Web Designs -cynnal a chadw y wefan

   Cydnabyddiaeth ail chwarter y Clerc a thaliad HMRC

7**.Gohebiaeth**

a) Nodi manylion **cynhadledd Genedlaethol Un Llais Cymru yn Llanelwedd ar yr 16eg o Hydref.**

b) Nodi yr angen I ddanfon **manylion taliadau Cynghorwyr I Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Medi.**

**c)** Nodwyd digwyddiad ar y cyd rhwng **Un Llais Cymru a'r SLCC ar yr 20fed o Dachwedd.**

**d)** Nodwyd ohebiaeth Un Llais Cymru am **reol presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd** – sef absenoldeb am fwy na 6 mis.

e**) Dyddiadau hyfforddiant** Un Llais Cymru

f) Gwasanaeth Sul y Cofio eleni

g) **Nodyn Datblygu Ymarfer 8 Cod Ymddygiad**: Aelodau a Swyddogion ( hefyd nodi y lincs ynglwm wrtho) – *danfonwyd allan i bawb 11eg Medi*

8. **Unrhyw fater arall**